OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2846 (Cy.234)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*26 Tachwedd 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Tachwedd 2010*
Yn dod i rym - -	*21 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 69(6) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 21 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(**2**);

ystyr "cyflawnydd" ("*performer*") yw ymarferydd deintyddol sydd wedi hysbysu Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn dymuno cael ei gynrychioli gan Bwyllgor Deintyddol Lleol a'i fod yn cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn yr ardal y mae Pwyllgor Deintyddol Lleol wedi ei ffurfio ar ei chyfer, yn unol ag adran 56(2) o'r Ddeddf, yn unol â threfniadau adran 64 neu o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol;

ystyr "darparydd" ("*provider*") yw ymarferydd deintyddol sydd, o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol y mae wedi ymrwymo iddo, yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn yr ardal y mae Pwyllgor Deintyddol Lleol wedi ei ffurfio ar ei chyfer;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(**1**) 2006 (p.42).

(**2**) Sefydlwyd BILl Addysgu Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)) a sefydlwyd BILl Aneurin Bevan, BILl Cwm Taf, BILl Hywel Dda, BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr, a BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)).

ystyr "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" ("*primary dental services*") yw gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn unol ag adran 56 o'r Ddeddf; ac

ystyr "Pwyllgor Deintyddol Lleol" ("*Local Dental Committee*") yw pwyllgor a gydnabyddir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan adran 69 o'r Ddeddf.

Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â Phwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol ynghylch cynllunio a chyflenwi gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn ardal y Bwrdd hwnnw gan gynnwys—

(a) cynigion ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol ychwanegol neu newydd sydd o bwys neu newidiadau o bwys i'r gwasanaethau deintyddol sylfaenol sy'n bodoli eisoes; a

(b) cynigion strategol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau deintyddol a gofal iechyd y geg yn y dyfodol.

Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch contractau

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol, ar gais darparydd neu gyflawnydd, wahodd Pwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol i gymryd rhan mewn trafodaethau rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a darparydd neu gyflawnydd ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol gan gynnwys trafodaethau ynghylch—

(a) adolygiad blynyddol o berfformiad;

(b) datrys anghydfodau yn lleol;

(c) cynigion i derfynu contractau neu gytundebau; ac

(ch) sancsiynau mewn contractau neu gytundebau.

Arolygiadau o Bractisau

4. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol wahodd Pwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol i gymryd rhan mewn arolygiadau o bractisau gan y Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol â pharagraff 44 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**3**) neu baragraff 44 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**4**).

Holi barn Pwyllgor Deintyddol Lleol

5. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â Phwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol os yw Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn nad yw perfformiad clinigol a/neu broffil gweithgareddau triniaeth darparydd neu gyflawnydd yn cydymffurfio â'r hyn y mae Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn ei fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer rhoi triniaeth i gleifion o ran—

(a) ailalwadau priodol;

(b) patrymau atgyfeirio amhriodol;

(c) patrymau rhagnodi eithriadol;

(ch) adroddiadau arolygu anffafriol ar bractisau; a

(d) materion llywodraethu clinigol eraill.

(**3**) O.S. 2006/490 (Cy. 59).
(**4**) O.S. 2006/489 (Cy. 58).